



Mesur Addysg (Cymru) 2011

2011 mccc 7

RHAN 2

LLYWODRAETHU YSGOLION

PENNOD 2

HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR A CHLERCOD A DARPARU CLERCOD

- 23 Dyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu clercod i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir**
- (1) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru hysbysu, o dro i dro, bob corff y mae'n ofynnol iddo benodi clerccod i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol o dan adran 23 o Ddeddf Addysg 2002 y caiff y corff hwnnw ofyn i'r awdurdod ddarparu person i'w benodi'n glercod.
 - (2) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu person i'w benodi os gwneir cais.
 - (3) Caiff y rheoliadau (ymhlith pethau eraill)—
 - (a) rhoi pŵer i awdurdod lleol godi ffi am ddarparu person (gan gynnwys pŵer i godi ffioedd gwahanol mewn achosion gwahanol);
 - (b) rhagnodi'r person y mae'n rhaid i'r ffi gael ei thalu drwyddo;
 - (c) darparu ar gyfer eithriadau ac esemptiadau.